**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

**Alun Davies AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Rebecca Evans AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

17 Awst 2018

Annwyl Alun a Rebecca

**Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2019-20**

Diolch am gytuno i ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor ar y dyddiadau a ganlyn:

- **Alun Davies**: Dydd Iau 15 Tachwedd, 11.00 - 12.30, a
- **Rebecca Evans**: Dydd Iau 15 Tachwedd, 09.30 - 11.00.

Cyn y cyfarfodydd hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu papur manwl ar y dyraniadau yn eich portffolios, a hynny ar sail yr egwyddorion craffu ariannol y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Cyllid, sef:

- **Fforddiadwyedd** – edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** – a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** – yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hynny yw, canlyniadau); a
- **Phrosesau'r gyllideb** – a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

Mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb hefyd yn y meysydd a ganlyn **mewn perthynas â phob portffolio yn y Cabinet**:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio **pwerau trethu a benthyca**, yn enwedig o ran Cyfradd Treth Incwm Cymru;
- Y dull gweithredu mewn perthynas â **gwariant ataliol,**[1] a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau, yn enwedig yng nghyd-destun ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynaliadwyedd **gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau**;
- Polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer **hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a lliniaru effaith diwygio lles**;
- Gwaith **cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit**;
- Sut y mae **tystiolaeth** yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb; a
- Sut y mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi.

## *Polisïau allweddol*

Ochr yn ochr â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor Cyllid, hoffai ein Pwyllgor gael ychydig o wybodaeth benodol cyn ein cyfarfodydd, a hynny at ddibenion llywio'r broses o graffu ar y materion sydd o fewn ein portffolio.

### Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus

- Manylion ynghylch unrhyw newidiadau a wnaed i'r **Fformiwla Ariannu** ar gyfer llywodraeth leol eleni, ynghyd â manylion ynghylch unrhyw benderfyniadau a wnaed am y **cyllid gwaelodol**.
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu **monitro** gwariant awdurdodau lleol ar feysydd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel meysydd blaenoriaeth o ran ariannu? Yn benodol, cyfeirir at y ddarpariaeth o **£62 miliwn drwy**

---

[1] Mae gwariant ataliol yn wariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar.

**elfen ysgolion y setliad,** a'r ddarpariaeth o **£42 miliwn drwy'r elfen gofal cymdeithasol**.

- Manylion ynghylch **dyraniadau grant** ar gyfer 2019-20. Pa grantiau fydd yn cael eu cyfuno a pha grantiau fydd yn cael eu hamsugno i mewn i'r grant cynnal refeniw neu i mewn i'r cronfeydd wrth gefn canolog?
- Sut y mae'r penderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth y flwyddyn nesaf **at ddibenion diwygio llywodraeth leol** wedi dylanwadu neu effeithio ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2019-20?
- Enghreifftiau o sut y mae'r **Gronfa Gofal Integredig** yn cefnogi prosiectau sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n fwy effeithiol ac yn fwy integredig. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y swm o £2 miliwn sydd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflwyno system TG Gofal Cymunedol Cymru yn genedlaethol.

**Tai, adfywio a thlodi**

- Canlyniad yr ymarfer gwerthuso a gynhaliwyd ar y prosiect 'cyllido hyblyg' ar gyfer **y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi** , a gwybodaeth am y penderfyniadau a wnaed ynghylch sut y bydd y grant yn cael ei weinyddu yn y dyfodol;
- Sut y bydd dyraniadau'n helpu'r broses o ddarparu rhagor o **dai fforddiadwy**, y broses o **adfer cartrefi gwag** a'r broses o gefnogi **mentrau perchnogaeth cartref**, gan gynnwys dyraniadau penodol sy'n targedu ardaloedd gwledig;
- Manylion ynghylch unrhyw ddyraniadau sy'n effeithio ar **wasanaethau digartrefedd**, gan gynnwys manylion am sut y dyrannwyd y swm ychwanegol o £10 miliwn a ddarparwyd yn 2018-19, a sut y bydd y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd eisoes ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn 2019-20 yn cael ei ddefnyddio;
- Manylion ynghylch unrhyw ddyraniadau a wnaed at ddibenion gwella **diogelwch tân** yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn dilyn y trychineb a gafwyd yn Nhŵr Grenfell;

- Sut y mae data o'r system well ar gyfer **addasiadau yn y cartref** wedi helpu'r broses o lywio dyraniadau cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal a thrwsio a gwasanaethau ar gyfer addasiadau yn y cartref, yn ogystal â manylion am y gwaith monitro parhaus sy'n cael ei wneud ar y rhaglenni cyllido hyn;
- Manylion ynghylch y dyraniadau ar gyfer **Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio** ;
- Sut y mae'r broses o gyflwyno'r system **Credyd Cynhwysol** yn ei chyfanrwydd yng Nghymru yn 2018-19 wedi cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch y gyllideb, a sut y dyrannwyd gwariant ataliol i liniaru'r sefyllfa hon;
- Proffil gwariant y **Gronfa Cymorth Dewisol** yn 2017-18, a'r rhesymau sydd ynghlwm wrth unrhyw danwariant neu orwariant;
- Gwybodaeth am y **Gronfa Waddol ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**, gan gynnwys: sut y'i defnyddiwyd, y canlyniadau a gyflawnwyd a sut y caiff y gronfa ei monitro;
- Enghreifftiau o sut y cafodd y gyllideb fwy ar gyfer y **Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol** ei defnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Sut y mae'r dyraniadau'n adlewyrchu un o'r ymrwymiadau a nodir yn *'Ffyniant i Bawb',* sef creu perthynas gynaliadwy gyda'r **sector gwirfoddol** yn seiliedig ar y model ariannu cywir;

**Deddfwriaeth**

- Gwybodaeth am effaith **unrhyw ddeddfwriaeth y DU** ar y gyllideb;
- Cynlluniau ar gyfer cyllido **deddfwriaeth Cymru** yn 2019-20 (gan gynnwys *Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018*, *Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018*, *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*, *y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru), a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*).

Dylech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn erbyn 25 Hydref.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.